# Dargyfeiriad dwodenol-ilëol anastomosis sengl gyda stumog-drychiad llawes ar gyfer trin gordewdra afiachus

Tachwedd 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae'r dystiolaeth ynghylch pa mor ddiogel yw dargyfeiriad dwodenol-ilëol anastomosis sengl gyda stumog-drychiad llawes ar gyfer trin gordewdra afiachus yn dangos bod cymhlethdodau tra hysbys ond, nid oes llawer o dystiolaeth gadarn am ba mor dda y mae'n gweithio. Felly, dylai ond cael ei defnyddio os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu'r hyn sy'n digwydd. Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar y driniaeth hon ac efallai y bydd NICE yn ailystyried y driniaeth os caiff rhagor o dystiolaeth ei chyhoeddi.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai esbonio'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau a'r cymhlethdodau posibl. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon.

Mae NICE yn gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol anfon gwybodaeth am bawb sy'n cael y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt ar ôl hynny i'r Gofrestr Llawdriniaeth Fariatrig Genedlaethol er mwyn gallu cadarnhau pa mor ddiogel yw'r driniaeth a/neu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Dywedodd NICE y gall fod cymhlethdodau metabolig difrifol ar ôl y driniaeth hon ac y gall fod angen i bobl gael triniaeth arall yn ddiweddarach.

**Eich tîm gofal iechyd**

Dylai tîm gofal iechyd sy'n brofiadol ym maes rheoli gordewdra afiachus benderfynu i bwy y dylid cynnig y driniaeth. Dim ond llawfeddygon sydd wedi'i hyfforddi'n benodol yn y driniaeth ddylai ei chynnal, a hynny mewn canolfannau sy'n arbenigo mewn trin gordewdra afiachus.

## Y cyflwr

Mae gan rywun ordewdra afiachus os yw ei fynegai crynswth corfforol (BMI) yn 40 neu fwy, neu os yw ei BMI rhwng 35 a 40 ac mae ganddo broblemau iechyd sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gordewdra. Mae pobl sydd â gordewdra afiachus yn fwy tebygol o gael problemau iechyd eraill fel diabetes math 2, clefyd coronaidd y galon a phwysedd gwaed uchel. Mae colli pwysau yn lleihau'r risg o gael y cyflyrau hyn ac yn gwella goroesiad yn yr hirdymor hefyd. Caiff gordewdra afiachus ei reoli drwy wneud newidiadau o ran ffordd o fyw, gan gynnwys ymarfer corff a deiet, a chymryd meddyginiaeth i golli pwysau. Os nad yw'r rhain yn gweithio, yna defnyddir llawdriniaeth (bariatrig) ar gyfer colli pwysau weithiau.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio dargyfeiriad dwodenol-ilëol anastomosis sengl gyda stumog-drychiad llawes fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices a gwybodaeth NICE i'r cyhoedd am ordewdra fod yn fan da i gael mwy o wybodaeth.

## Y driniaeth

Fel arfer, caiff dargyfeiriad dwodenol-ilëol anastomosis sengl gyda stumog-drychiad llawes ar gyfer trin gordewdra afiachus ei gynnal o dan anesthetig cyffredinol drwy lawdriniaeth twll clo (laparosgopig). Mae'n cynnwys dau gam. Yn gyntaf, gwneir llawes gastrig drwy dynnu rhywfaint o'r stumog i'w gwneud yn llai a'i ffurfio i mewn i siâp tiwb. Yna, caiff rhan gyntaf y coluddyn bach ei byrhau a'i chysylltu â rhan olaf y coluddyn bach. Mae'r driniaeth yn barhaol. Weithiau, gwneir y camau mewn dwy lawdriniaeth ar wahân. Y nod yw lleihau maint y stumog a'r coluddyn bach er mwyn lleihau faint o fwyd a gaiff ei amsugno i mewn i'r corff.

Ar ôl y llawdriniaeth, mae'n rhaid i gleifion fwyta deiet calori isel. Caiff fitaminau amrywiol, calsiwm ac ychwanegion haearn eu rhagnodi pan fydd angen.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth ar gyfer dargyfeiriad dwodenol-ilëol anastomosis sengl gyda stumog-drychiad llawes, penderfynodd bod y dystiolaeth ar ei effeithiolrwydd yn gyfyngedig, a bod cymhlethdodau tra hysbys yn gysylltiedig â'r driniaeth. Roedd y tair astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 247 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- gwnaeth rhai cleifion lwyddo i gadw'r pwysau a gollwyd ganddynt i ffwrdd am hyd at bum mlynedd
- gostyngiad mewn lefelau siwgr yn y gwaed a llai o achosion o ddiabetes (mewn un astudiaeth, nid oedd gan tua 50% o gleifion ddiabetes bum mlynedd ar ôl y driniaeth, er i ddiabetes ddychwelyd mewn tua 8% o bobl o fewn pum mlynedd)
- lefelau maetholion normal 12 mis ar ôl y driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau sy'n gysylltiedig â dargyfeiriad dwodenol-ilëol anastomosis sengl gyda stumog-drychiad llawes yn cynnwys:

- gollyngiadau o'r stumog neu'r coluddyn bach yn achos tri pherson, a gafodd eu trin yn llwyddiannus
- cleisio ar yr abdomen yn achos pedwar person
- torllengig yn achos dau berson, yr oedd angen triniaeth bellach ar ei gyfer
- coden fustl llidus yn achos dau berson, yr oedd angen ei drin
- dolur rhydd a rhwymedd, y ddau yn achos dau berson
- marwolaeth oherwydd problemau'n ymwneud â'r ysgyfaint, trawiad ar y galon, gwaedu yn y stumog neu geudod yr abdomen, crawniad yng ngheudod yr abdomen, y llawes gastrig yn culhau gan olygu bod angen llawdriniaeth bellach, wlser yn y stumog a chwydu achlysurol, pob un mewn un person

- lefelau isel o fitamin A mewn tua 50% o gleifion mewn un astudiaeth.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-2309-0